# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 10 Gorffennaf 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Effaith yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar Gydlynu Polisi

**C14 Geraint Davies:** Beth fydd effaith Adran newydd y DU dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y modd y mae San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydlynu polisi? (OAQ12460)

**Prif Weinidog Cymru:** Gweler yr ateb a roddais i Gareth Jones yn y Cyfarfod Llawn.

Fel mae ei henw yn awgrymu, bydd gan yr adran newydd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ddull mwy cydlynol o weithio ar faterion amgylcheddol a gwledig. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes yn cydlynu ar faterion o'r fath, felly credaf y bydd creu'r adran newydd, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, yn effeithio'n gadarnhaol ar gydlynu polisïau rhwng Whitehall a ni.

### Datblygu Polisïau i Wella Gwasanaethau Cyhoeddus

**C15 Janet Davies:** Sut y mae'r mesurau a gyflwynwyd ers cyhoeddi 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' wedi cyfrannu at ddatblygu polisïau i wella gwasanaethau cyhoeddus? (OAQ12456)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym wedi cyflwyno nifer o bolisïau a mesurau sy'n anelu at wella gwasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o welliannau i'r gwasanaethau iechyd, sef presgripsiynau am ddim a dim ffioedd deintyddol i'r rhai dan 25, dim cynnydd yn ffioedd presgripsiynau pawb arall, a llai o gleifion mewnol yn aros am driniaeth. Yr ydym hefyd wedi cyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion i bob disgybl yng nghyfnod allweddol 1, wedi buddsoddi £300 miliwn dros dair blynedd i wella adeiladau ysgolion ac, o Fedi 2001, ni fydd yr un dosbarth o blant o dan saith oed â mwy na 30 o ddisgyblion. Hefyd, yr ydym wedi cyflwyno'r grant gwasanaethau trafnidiaeth leol i helpu i ariannu trafnidiaeth gymunedol a, chyn hir, byddwn yn cyflwyno Deddf Trafnidiaeth 2000, sy'n cynnwys mesurau i wella trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau traffig a llygredd.

### Hybu Cysylltiadau Rhwng Cymru a Gwledydd Eraill

**C16 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd sut y mae tair thema drawsbynciol y Cynulliad, sef datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a threchu anfantais gymdeithasol, wedi llywio ei ymdrechion i hybu cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill? (OAQ12469) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyflawni Agweddau Trawsbynciol Targedau 2003 yn 'Gwellcymru.com'

**C17 David Lloyd:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar hynt yr ymdrechion i gyflawni agweddau trawsbynciol targedau 2003 yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ12463) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Manteision 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' i Ganolbarth a Gorllewin Cymru

**C18 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar y manteision a ddaeth i ganolbarth a gorllewin Cymru yn sgîl 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ12454)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym wedi gwneud llawer tuag at roi Amcan 1 ar waith, a fydd o fudd i ardaloedd helaeth o'r canolbarth a'r gorllewin. Hefyd yr ydym wedi cyflwyno'r ardaloedd a fydd yn elwa ar Roi Cymunedau'n Gyntaf, gan gynnwys y prosiect arloesol i gefn gwlad dyffryn Dyfi.

**Datblygu'r Berthynas rhwng Cymru a'r Rhanbarthau yn Lloegr**

**C19 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Adran newydd y DU dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ynghylch datblygu'r berthynas rhwng Cymru a'r rhanbarthau yn Lloegr? (OAQ12462) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diwygio System y Pwyllgor Dethol**

**C20 Jocelyn Davies:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch sut y byddai diwygio system y pwyllgor dethol yn effeithio ar y berthynas rhwng y Cynulliad a gweddill y Deyrnas Unedig? (OAQ12465) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diogelu Buddiannau Cymru yn y Broses o Ehangu'r Undeb Ewropeaidd**

**C21 John Griffiths:** Pa strategaeth a all Prif Weinidog Cymru ei dilyn i geisio diogelu buddiannau Cymru yn y broses o ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ12452) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith Rhaglen Ddeddfwriaethol Newydd Llywodraeth y DU**

**C22 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch effaith rhaglen ddeddfwriaethol newydd Llywodraeth y DU ar ddatblygiad polisïau yng Nghymru? (OAQ12461) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Refferendwm ar yr Ewro**

**C23 Peter Black:** Beth fydd rôl Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol yn y trafodaethau am amseriad y refferendwm ar yr ewro? (OAQ12472)

**Prif Weinidog Cymru:** Mater a gadwyd i Lywodraeth y DU yw penderfynu argymell ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol. Os bydd y Llywodraeth yn argymell bod y DU yn ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol, cynhelir pleidlais arni yn y Senedd a refferendwm i bobl y DU. Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n cynrychioli buddiannau Cymru yn Llywodraeth y DU. Bydd Cabinet y Cynulliad am ystyried goblygiadau ymuno â'r undeb economaidd ac ariannol i Gymru, a rhoi gwybod am ei farn i Lywodraeth y DU.

**Ymweliad Diweddar â Chynhadledd Eryr Gwyn, Draig Goch**

**C24 Christine Chapman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei ymweliad diweddar â'r gynhadledd Eryr Wen, Draig Goch—Gwlad Pwyl a Chymru: Partneriaid mewn Undeb Ewropeaidd Ehangach? (OAQ12468)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr oeddwn yn falch o gael fy ngwahodd i roi un o'r prif areithiau yn y gynhadledd ddiweddar Eryr Wen, Draig Goch—Gwlad Pwyl a Chymru ac o gael cwrdd â'r Llysgennad, Ei Ardderchowgrwydd, Stanislaw Komorowski.

Thema'r gynhadledd oedd cysylltiadau'r presennol a'r dyfodol rhwng Cymru a Gwlad Pwyl, yn arbennig yng nghyd-destun cydweithredu rhanbarthol ledled yr Undeb Ewropeaidd. Yr oedd y gynhadledd yn gyfle da inni ystyried, nid yn unig ansawdd y cyswllt presennol rhwng Gwlad Pwyl a Chymru, ond hefyd ei gryfhau wrth i Wlad Pwyl nesáu at fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Yr oedd hefyd yn gyfle i Gymru, o ran y sectorau cyhoeddus a phreifat, ystyried pa ranbarth neu ranbarthau o Wlad Pwyl a fyddai â diddordeb mewn gosod seiliau cytundeb cydweithredu.

**Hynt yr Ymrwymiadau Trawsbynciol a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'**

**C25 Janet Ryder:** Pryd y gwnaiff Prif Weinidog Cymru adrodd wrth Gyfarfod Llawn y Cynulliad ar hynt yr ymrwymiadau trawsbynciol a wnaethpwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ12464) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cydlynu Polisïau Rhwng San Steffan a'r Cynulliad**

**C26 Richard Edwards:** Pa effaith a gaiff Swyddfa'r Cabinet sydd newydd ei ddiwygio yn Whitehall ar y modd y bydd San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydlynu polisïau? (OAQ12449) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cydlynu Swyddogaethau Cabinet y Cynulliad**

**C27 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei rôl fel cydlynydd swyddogaethau Cabinet y Cynulliad? (OAQ12451)

**Prif Weinidog Cymru:** Myfi sy'n cydlynu datblygiad polisïau'r Cabinet drwy gyfarfodydd y Cabinet a'i is-bwyllgorau, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd a thrafodaethau mwy anffurfiol.